**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifenydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**19 Mehefin 2024**

## RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

### Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 (“Rheoliadau 2005”) yn rhagnodi cynnwys y rhestr ardrethu annomestig ganolog (NDR) ar gyfer Cymru. Enwir personau dynodedig (cwmnïau sydd yn drethdalwr mewn perthynas â hereditamentau'r rhestr ganolog) yn yr Atodlen i Reoliadau 2005. Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024 (“Rheoliadau 2024”) yn diwygio Rheoliadau 2005 i ddiweddaru cyfeiriadau at bersonau dynodedig ac i hepgor y rhai nad ydynt bellach yn dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog.

### Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

### Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n dynodi person ac yn rhagnodi, mewn perthynas â'r person hwnnw, un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditamentau annomestig ar y rhestr ardrethu ganolog. Mae Rheoliadau 2005, fel y'u diwygiwyd, yn pennu'r personau dynodedig hyn ochr yn ochr â diffinio disgrifiadau perthnasol.

4. Mae adran 53(1) o Ddeddf 1988 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

5. Mae'r pŵer i ddiwygio Rheoliadau 2005 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Diben Rheoliadau 2024 yw diwygio Rheoliadau 2005 i ddiweddaru enwau personau dynodedig mewn perthynas â hereditamentau'r rhestr ganolog.

7. Mae'r Atodlen i Reoliadau 2005 yn cynnwys 11 Rhan sy'n cyfateb i wahanol fathau o hereditamentau'r rhestr ganolog. Mae Rheoliadau 2024 yn diweddaru enwau personau dynodedig yn yr Atodlen i adlewyrchu newidiadau yn enwau cwmnïau, neu i hepgor y rhai nad ydynt bellach yn bodoli neu'n meddiannu hereditament ar y rhestr ganolog. Mae rheoliadau 9 ac 11 o Reoliadau 2005 hefyd wedi'u diwygio, i gyd-fynd â newidiadau i enwau personau dynodedig penodol yn Rhannau 3 a 5 o'r Atodlen.

8. Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn darparu ar gyfer eglurder ychwanegol mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol y personau dynodedig, drwy sicrhau bod enwau'r cwmni'n cyd-fynd â rhif perthnasol y cwmni. Hon yw'r wybodaeth a ddefnyddir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n gyfrifol am lunio rhestrau ardrethu annomestig ar gyfer Cymru) i olrhain newidiadau i enwau cwmnïau ar gyfer personau dynodedig er mwyn sicrhau eu bod yn dal ar y rhestr ardrethu ganolog.

9. Diwygiadau gweinyddol yw'r rhain na fyddant yn newid arfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio nac atebolrwydd talwyr ardrethi unigol. Bydd y newidiadau hyn yn gymwys o 18 Gorffennaf 2024.

**Ymgynghori**

10. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad. Mae Rheoliadau 2024 yn darparu ar gyfer diwygiadau gweinyddol na fyddant yn cael unrhyw effaith ymarferol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio na thalwyr ardrethi'r rhestr ganolog.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

11. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer Rheoliadau 2024 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru Rheoliadau 2005 ac nad ydynt yn newid effaith y polisi. Mae hyn yn cyd-fynd â'r polisi a nodir yng *Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth*.